Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Chris Bradshaw
Y Pafiliynau
Parc y Cambrian
Cwm Clydach
Tonypandy
CF40 2XX

**Trwy e-bost:**
Christopher.d.bradshaw@rctcbc.gov.uk

9 Medi 2016

Annwyl Mr Bradshaw

**Herio dyletswyddau dyfodol: Dyfarnu ar gais gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf [adran 57 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011]**

Pwrpas y llythyr hwn yw hysbysu Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o'r dyfarniad mae Comisiynydd y Gymraeg wedi ei wneud mewn cysylltiad â cheisiadau a wnaed gan y Cyngor ac i roi gwybod i'r sefydliad am y camau nesaf.

Gwnaed ceisiadau mewn perthynas â 14 o safonau ar 29/03/2016. Mae'r Comisiynydd eisoes wedi ymgynghori â'r Cyngor mewn llythyr dyddiedig 01/04/2016 lle rhoddwyd cyfle iddo ddarparu gwybodaeth bellach mewn cysylltiad â'r cais a thrwy rannu ystyriaethau rhagarweiniol Comisiynydd y Gymraeg gyda'r Cyngor ar 06/06/2016. Ymgynghorwyd ymhellach yn dilyn hynny ar 12/08/2016 er mwyn ceisio dod i gytundeb. Ymatebodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf i lythyr diweddaraf Comisiynydd y Gymraeg yn datgan bod y Cyngor yn gwbl fodlon gydag amrywiadau mae Comisiynydd dy Gymraeg wedi eu gwneud i Hysbysiad Cydymffurfio'r Cyngor ac yn derbyn casgliadau Comisiynydd y Gymraeg mewn perthynas â safonau a heriwyd. Ar y sail yr ymateb mae Comisiynydd y Gymraeg yn eich hysbysu ei bod wedi dyfarnu yn unol â'r casgliadau a rannwyd gyda chi hyd yma ac yn achos yr holl safonau a heriwyd.

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5–7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

0845 6033 221
post@comisiynyddygymraeg.org
Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg

comisiynyddygymraeg.org

Welsh Language Commissioner
Market Chambers
5–7 St Mary Street
Cardiff CF10 1AT

0845 6033 221
post@welshlanguagecommissioner.org
Correspondence welcomed in Welsh and English

welshlanguagecommissioner.org

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| Rhif Safon | Rhif Achos | Dyfarniad | Camau dilynol |
|---|---|---|---|
| 24 | 268-20160329-CBSRCT-24 | Nad yw'r gofyniad i gydymffurfio gyda'r safon yn afresymol neu'n anghymesur | Dim camau |
| 24A | 269-20160329-CBSRCT-24A | Nad yw'r gofyniad i gydymffurfio gyda'r safon yn afresymol neu'n anghymesur | Dim camau |
| 27 | 270-20160329-CBSRCT-27 | Nad yw'r gofyniad i gydymffurfio gyda'r safon yn afresymol neu'n anghymesur | Dim camau |
| 27A | 271-20160329-CBSRCT-27A | Nad yw'r gofyniad i gydymffurfio gyda'r safon yn afresymol neu'n anghymesur | Dim camau |
| 27D | 272-20160329-CBSRCT-27D | Nad yw'r gofyniad i gydymffurfio gyda'r safon yn afresymol neu'n anghymesur | Dim camau |
| 30 | 273-20160329-CBSRCT-30 | Nad yw'r gofyniad i gydymffurfio gyda'r safon yn afresymol neu'n anghymesur | Dim camau |
| 32 | 274-20160329-CBSRCT-32 | Nad yw'r gofyniad i gydymffurfio gyda'r safon yn afresymol neu'n anghymesur | Dim camau |
| 41 | 275-20160329-CBSRCT-41 | Bod y gofyniad i gydymffurfio gyda'r safon yn afresymol neu'n anghymesur | Amrywio'r hysbysiad cydymffurfio presennol |
| 33 | 276-20160329-CBSRCT-33 | Nad yw'r gofyniad i gydymffurfio gyda'r safon yn afresymol neu'n anghymesur | Dim camau |
| 52 | 277-20160329-CBSRCT-52 | Bod y gofyniad i gydymffurfio gyda'r safon yn afresymol neu'n anghymesur | Amrywio'r hysbysiad cydymffurfio presennol |
| 58 | 278-20160329-CBSRCT-58 | Bod y gofyniad i gydymffurfio gyda'r safon yn afresymol neu'n | Amrywio'r hysbysiad cydymffurfio |

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | anghymesur | presennol |
| 64 | 279-20160329-CBSRCT-64 | Bod y gofyniad i gydymffurfio gyda'r safon yn afresymol neu'n anghymesur | Amrywio'r hysbysiad cydymffurfio presennol |
| 69 | 280-20160329-CBSRCT-69 | Bod y gofyniad i gydymffurfio gyda'r safon yn afresymol neu'n anghymesur | Amrywio'r hysbysiad cydymffurfio presennol |
| 86 | 281-20160329-CBSRCT-86 | Nad yw'r gofyniad i gydymffurfio gyda'r safon yn afresymol neu'n anghymesur | Dim camau |

O ganlyniad mae'r Comisiynydd wedi amrywio'r hysbysiad cydymffurfio presennol. Gwnaed hyn o dan ddarpariaethau adran 57(6)(c) [1]. Caiff manylion yr hysbysiad cydymffurfio fel y'i amrywiwyd ei atodi gyda'r llythyr dyfarnu hwn.

Mae'r Comisiynydd yn nodi'r dadleuon cyfreithiol a roddwyd gerbron gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf mewn perthynas â'r safonau y cytunwyd iddynt ac a amrywiwyd neu  a dynnwyd yn ôl yn yr Hysbysiad Cydymffurfio. Nid yw'r ffaith fod y Comisiynydd wedi penderfynu cytuno i gais Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn golygu bod y Comisiynydd yn derbyn y dadleuon cyfreithiol a roddwyd gerbron gan y sefydliad er mwyn cyfiawnhau'r cais nac yn amharu ar allu'r Comisiynydd i fynd i wrthod y dadleuon hynny neu rai tebyg yn y dyfodol.

Yn achos safonau 24, 24A, 27, 27A, 27D 30, 32, 33 ac 86 ni ddyfarnwyd bod y gofyniad ar Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf  i gydymffurfio â safon, neu i gydymffurfio â safon mewn modd penodol yn afresymol neu anghymesur. Bydd y Comisiynydd yn cymryd ystyriaeth o'r ffaith bod y safonau hyn wedi eu herio gan y sefydliad pe deuai cwyn i mewn sy'n ymwneud â chyfnod pan nad oedd y safon yn weithredol.

Yn dilyn derbyn y dyfarniad hwn cewch apelio i Dribiwnlys y Gymraeg (y Tribiwnlys), gan ofyn i'r Tribiwnlys ddyfarnu a yw'r gofyniad i gydymffurfio â safon, neu gydymffurfio â safon mewn modd penodol, yn afresymol neu'n anghymesur ai peidio. Mae dolen i wefan y Tribiwnlys wedi ei chynnwys isod:
http://tribiwnlysygymraeg.llyw.cymru/?lang=cy

Nid yw'r gofyniad i gydymffurfio â'r safon(au) a heriwyd ac a ddyfarnwyd arnynt yn y llythyr hwn yn gymwys ar hyn o bryd a bydd y ddyletswydd yn parhau i fod wedi ei gohirio hyd nes bod eich hawliau i apelio wedi eu disbyddu.  Golyga hynny na fydd yr Hysbysiad Cydymffurfio sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn yn cael ei osod ar wefan Comisiynydd y

[1] Dylid nodi nad yw adrannau 45(3) nac adrannau 46 (3) nac ychwaith adran 47  yn gymwys mewn perthynas â'r hysbysiad cydymffurfio lle bydd y sefydliad a'r Comisiynydd wedi cytuno arno.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Gymraeg hyd nes bod cyfnod o 28 niwrnod wedi mynd heibio, sef y cyfnod ar gyfer gwneud apêl, neu hyd nes bod apêl i'r Tribiwnlys, neu apêl pellach wedi dod i ben.

Yn gywir,

Gwenith Price

**Cyfarwyddwr Cydymffurfio a Gorfodi**
Ar ran Comisiynydd y Gymraeg

Copi at: Wendy Edwards
Y Cynghorydd Geraint Hopkins
Esther Thomas